

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin Cyngor Cymuned Llandybïe a gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, y Stryd Fawr, Llandybïe, a thrwy gyfrwng Microsoft Teams ar ddydd Mercher, Mai 18^{fed}, 2022 am 7.15 yh.

Presennol

Cynghorwyr	P. H. Roberts	Mrs A. Evans	I. Rh. Llewelyn
	Mrs S. E. Thomas	Mrs C. Thomas	R. A. Davies
	S. Roberts	A. W. Jones	D. Hopkins
	D. Nicholas	D. Jones	D. Thomas
	J. H. Tandy	Mrs H. S. Bjork	G J. Davies
	R. W. Barnes	E. W. Nicholas	

Ymddiheuriadau

Cynghorydd	Mrs K. D. L. Davies
------------	---------------------

11.

Datganiadau o Fuddiant

Roedd y Cynghorydd R. A. Davies wedi datgan buddiant yng Nghofnod 14(3) gan ei fod yn Ysgrifennydd a Thrysorydd Clwb Tennis Llandybïe.

Roedd y Cynghorydd E.W. Nicholas wedi datgan buddiant yng Nghofnod 14(3) gan ei fod yn Llywydd Clwb Tennis Llandybïe,

Roedd y Cynghorydd S. Roberts wedi datgan buddiant yng Nghofnod 14(6) gan ei fod yn gyflogedig gan Morgan and Morgan Ltd

12.

COFNODION

Rhoddwyd ystyriaeth i gofnodion y cyfarfodydd canlynol fel y'u dosbarthwyd hwy:

Cofnodion Cyfarfod Cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd ar Ebrill 27^{ain}, 2021.

Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ebrill 27^{ain}, 2021.

Penderfynwyd cymeradwyo Cofnodion y cyfarfodydd hyn yn gofnodion cywir.

Penderfynwyd hefyd gadarnhau argymhellion y Pwyllgor.

MATERION YN CODI O'R COFNODION

a). Cofnod 1089 – Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021/2022 – Derbyniwyd ymateb oddiwrth Gyngor Sir Caerfyrddin i hysbysu'r Aelodau bod y nifer o gynghorwyr sy'n cynrychioli pob ward wedi'i gytuno ar gyda Chyngor Sir Caerfyrddin, yn seiliedig ar lefel gynrychiolaeth awgrymedig, sef rhwng 9 – 16 cynghorydd ar gyfer etholaeth rhwng 2500 - 10000. Serch hynny mae eisoes gan y Cyngor 19 cynghorydd, a byddai'r ardal ddaearyddol a thwf y boblogaeth wedi cael eu hystyried. Gall Cyngor Sir Caerfyrddin ystyried newidiadau yn nifer y cynghorwyr drwy gynnal adolygiad ffurfiol o ffigyrau awgrymedig y Cyngor Cymuned ar gyfer pob ward gymunedol.

Yna byddai Cyngor Sir Caerfyrddin y cynnal y fath adolygiad a gwneud gorchymyn, ond ni fyddai unrhyw newidiadau yn dod i rym tan yr etholiadau nesaf i'r Cyngor Cymuned a gynhelir yn 2027. **Penderfynwyd** adolygu'r gynrychiolaeth ar ôl adroddiad blynyddol 2022/2023.

b) Cofnod 1089 – Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd 2021/2022 – Chwynladdwyr – Derbyniwyd llythr o gydnabyddiaeth oddiwrth Ainsley Williams, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd, Cyngor Sir Caerfyrddin, yn cynnig ymateb llawn yn y man.

GOHEBIAETH

13.

Adroddiadau Trosedd yr Heddlu

Cofnodwyd y troseddau canlynol yn ystod mis Ebrill 2022:-

Llandybie

Difrod Troseddol 2
Ymosod 2
Aflonyddu 3
Y Drefn Gyhoeddus 1
Arall 1

Saron (gan gynnwys Capel Hendre a Phenybanc)

Bwrgleriaeth 1
Lladrad 3
Difrod Troseddol 3
Ymosod 5
Cynnu Tân 1
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau 1
Torri gorchymyn atal 1
Aflonyddu 5
Stelcio 1
Affraé 1
Arall 1

Penygroes

Bygythiadau i ladd 1
Difrod Troseddol 2
Troseddau'n ymwneud â chyffuriau 1
Aflonyddu 2

14.

ADRODDIAD Y CLERC

1) Hawliau Tramwy Cyhoeddus

a) Llwybr Troed rhif 51/105 ym Monllwyn

Mae'r llwybr troed hwn, sy'n cael ei ddefnyddio'n gyson, wedi tyfu'n wyllt ac roedd angen torri'r glaswellt yno ar fyrder. Roedd R Gleaves, Bonllwyn, wedi gwneud y gwaith yn foddhaol, a hynny am bris o £55.

b) Roedd cynrychiolydd grŵp cerdded lleol wedi cysylltu â'r Clerc i fynegi pryderon ynghylch cyflwr y llwybrau troed rhwng Saron / Capel Hendre a Heol Cwmfferws. Roedd y Clerc wedi ymweld â'r ardal dan sylw ac wedi ysgrifennu at Gyngor Sir Caerfyrddin i amlygu'r canlynol:

i). Nid yw llwybr troed rhif 51/22 erioed wedi bod yn rhan o gytundeb cynnal a chadw y Cyngor Cymuned ac roedd angen gwaith yno cyn bod modd ei ail-agor yn ddiogel. Roedd y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus wedi gofyn os allai'r Cyngor Cymuned wneud y gwaith angenrheidiol, ac ychwanegu'r gost at yr hawliad adalu'r contract cynnal a chadw blynyddol.

ii). Roedd wyneb llwybr troed rhif 51/124 (sydd hefyd yn llwybr ceffyl) wedi'i erydu mewn un man arbennig, ac roedd hi'n anodd ei ddefnyddio. Bydd y tîm Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn trefnu ymweliad safle.

iii). Mae angen gwella'r arwyddion ar draws yr ardal, a bydd hyn nawr yn rhan o brosiect dynodedig Sirol yn 2022/2023.

2) Parciau

i) Arolygu'r Coed

Derbyniwyd yr adroddiadau oddiwrth Paul Cleaver, coedwigwr siarteredig gyda chwmni Tree Consultants Wales. **Penderfynwyd** y dylid talu'r £1200 a TAW, sef cost llunio'r adroddiadau fel y cytunwyd drwy ddyfynbris.

Roedd pob un o'r unarddeg parc wedi'i arolygu ac, ar hyn o bryd, nid oedd angen gwneud unrhyw waith ymyrryd yn y mwyafrif ohonynt. Dyma rhestr o'r parciau sydd angen sylw:

Parc Derwydd – argymhelliad i gwmpo, a gosod un newydd yn ei lle, coeden sy'n dioddef clefyd (Calara) coed ynn (ADD). Nid oes gwir obaith y bydd y goeden yn gweld adferiad.

Cwmgwili - argymhelliad i gwmpo, a gosod un newydd yn ei lle, coeden sy'n dioddef clefyd (Calara) coed ynn (ADD). Nid oes gwir obaith y bydd y goeden yn gweld adferiad.

Penygroes – mae onnen wylofus ger ardal chwarae'r plant yn arddangos symptomau cynnar clefyd (Calara) coed ynn. Nid oes angen ymyrryd yn hyn ar fyrder ond argymhellir cynnal adolygiad pellach ym mis Awst pan fydd y goeden yn llawn dail.

Derwydd – mae coed ynn aeddfed yn arddangos symtomau cynnar ADD. Ar hyn o bryd mae'r risg yn isel ond yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd sydd i ddod fel bod yr haint yn dwysau. Byddai'n gall ail-asesu cyflwr y coed ym mis Awst pan mae'n debygol y bydd angen ymyrraeth.

Penderfynwyd bwrw ati i gwmpo'r coed a gofyn i'r coedwigwr drefnu ymweld â'r safleoedd unwaith eto ym mis Awst er mwyn ail-asesu'r ADD yn Nerwydd a Phenygroes.

3) Cyrtiau tenis Llandybïe

Roedd cwmni Celsius Installations Ltd o Benygroes wedi gorffen y gwaith ar y llifoleuadau yng nghyrtiau tenis Llandybïe i drwsio'r diffygion a adnabuwyd fel rhan o'r adroddiad 5 mlynedd EICR. Tra roedd y gwaith yn mynd yn ei flaen daeth yn amlwg bod angen amnewid bylbiau yr unedau a, gyda chydysyniad y Cadeirydd, cytunwyd prynu 8 byl i orffen y prosiect.

Derbyniwyd anfoneb am £3880 a TAW am y gwaith, tasg a oedd wedi'i gwblhau'n foddhaol.

Penderfynwyd talu'r anfoneb gan ddefnyddio arian a glustnodwyd yn flaenorol i'r gyllideb Datblygu Cymunedol ar gyfer 2022/2023.

4) Etholiad 2022

Cafodd y Cynghorwyr eu hatgoffa bod angen anfon y ffurflen Datganiad Gwariant yr Ymgeisydd at Gyngor Sir Caerfyrddin o fewn 28 diwrnod wedi'r etholiad.

Tynnwyd sylw at hyn er gwybodaeth yn unig.

5) Cyfranogiad y Cyhoedd mewn cyfarfodydd

Mae'r Cyngor wastad wedi annog aelodau'r cyhoedd i fynychu cyfarfodydd ond, o hyn ymlaen, mae'n ofyniad cyfreithiol i sicrhau bod lle ar yr agenda am gyfranogiad cyhoeddus. Bydd hyn yn rhoi cyfle i unrhyw aelod o'r cyhoedd ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau ynghylch unrhyw eitem busnes sydd i'w drafod yn ystod y cyfarfod, a sy'n agored ar drafodaeth gyhoeddus. Bydd eitemau busnes cyfrinachol yn cael eu heithrio.

Cofnodwyd hyn er gwybodaeth yn unig.

6) Gwasanaeth cyfieithu ar gyfer cyfarfodydd rhithiol

Nid oes modd cynnig gwasanaeth cyfieithu trwy gyfrwng Microsoft Teams i unrhywun sydd am ymuno â chyfarfod y cyngor arlein. Er mwyn cwrdd â gofynion y Cyngor roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau ynghylch defnyddio Zoom, gan y byddai hyn yn caniatáu cyfranogi yn ddwyieithog yn y siambr neu arlein. Byddai cost trwydded Zoom Pro, gyda'r opsiwn o weminar a fyddai'n caniatáu cyfleusterau cyfieithu, yn £119.90 a £552 yn flynyddol.

Mae cynghorau cymuned Llangathen a Llanddarog eisoes yn rhannu adnodd Zoom ac mae gan Landybïe yr opsiwn o logi'r adnodd am ei gyfarfodydd am bris o £20 y cyfarfod.

Penderfynwyd cynnal trafodaeth bellach gyda Microsoft Teams er mwyn cadarnhau nad yw ei system yn darparu cyfleusterau cyfieithu ac, os taw dyna yw'r sefyllfa mewn gwirionedd, bod y Clerc yn bwrw ati i logi gwasanaeth oddiwrt h y cynghorau eraill.

15.

GILFACH IAGO

Roedd y Clerc wedi gwneud ymholiadau pellach gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynghylch y sefyllfa gyfredol parthed â Celtic Energy, a'r arian sydd wedi'i addo. Mae aelod hÿn o'r tîm cyfreithiol sy'n delio â'r achos i ffwrdd ar ei wyliau tan Mai 24^{ain} a bydd adroddiad ar y sefyllfa ddiweddaraf yn cael ei dderbyn wedi iddo ddychwelyd i'r gwaith.

16.

MATERION ARIANNOL

(i) Talu'r biliau

Dywedodd y Clerc bod y cyfrifon canlynol wedi'u talu ers y cyfarfod diwethaf:

5846	EDF	Parc Penygroes – Ebrill 2022	£18.98
5847	EDF	MUGA Llandybïe – Ebrill 2022	£15.14
5848	EDF	Pafiliwn Saron – Ebrill 2022	£95.60
5849	EDF	Pafiliwn Llandybïe – Ebrill 2022	£32.77
5850	EDF	Sied Fowlio Llandybïe – Ebrill 2022	£22.39
5851	EDF	Parc Capel Hendre – Ebrill 2022	£15.14
5852	Wrenvale Gardening and Maintenance	Amnewid siec am siec rhif 005808 – wedi mynd ar goll	£432.00
5854	R Gleaves	Clirio'r gordyfiant ar lwybr troed rhif 51/105 ym Monllwyn	£55.00
5856	Eglwys Apostolaidd y Deml	Amnewid siec am siec rhif 005773 – wedi mynd ar goll yn y post	£300.00

Yn ychwanegol, derbyniwyd yr anfonebau a'r ceisiadau am dâl canlynol:

5841	Celsius Installations and Services Ltd	Gwelliannau i'r llifoleuadau, a gosod bylbiau newydd yng nghyrtiau tenis Llandybïe.	£4656.00
5842	S Griffith	Cyflog Mai 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tÿ fel swyddfa	£2366.37
5843	R Thomas	Cyflog Mai 2022, gan gynnwys lwfans defnyddio'r tÿ fel swyddfa	£676.31

Cadeirydd

Mai 18^{fed}, 2022

5844	Cyllid y Wlad	Mai 2022	£1051.00
5845	Martin Davies	Cyfieithu'r Cofnodion	£106.40
5853	JEMS Environmental Ltd	Hylendid dŵr – Ebrill 2022	£281.26
5855	Tree Consultants Wales	Adroddiad arolygu'r coed 2022	£1440.00
5857	V L Llewellyn	Ffi yr archwiliad mewnol 2021/2022	£650.00

Penderfynodd yr Aelodau y dylid talu'r cyfrifon.

(ii) Monitro'r gyllideb yn fisol – Cyngor Cymuned Llandybïe 2022/2023

	Cyllideb 2022-23	Incwm a Gwariant 01.04.22- 30.04.22
	£	£
Praesept	180,000	60,000
Llog: Lloyds	25	2
Llog: cyfrifon cadw	250	
Hawliau Tramwy Cyhoeddus	3,000	
Cytundebau Llogi	4,700	500
	<u>187,975</u>	<u>60,502</u>
Staffio	48,858	4,094
Adeiladau	16,950	3,622
Gwasanaethau Swyddfa	4,800	2,189
Costau'r Aelodau	3,300	0
Gwasanaethau a Thanysgrifiadau	7,350	257
Adran 137		0
Taliadau yn unol â phwerau eraill	} 18,000	0
Mannau agored cyhoeddus		0
Neuaddau Pentref		0
Claddfeydd		0
Hawliau Tramwy Cyhoeddus – cynnal a chadw	}	420
Hawliau Tramwy Cyhoeddus - gwelliannau		0
Torri'r glaswellt/ sbwriel/ cyfleusterau	28,000	80
Atgyweirio ac amnewid offer yn y parciau	30,000	0
Goleuo cyhoeddus - ynni	}	0
Goleuo cyhoeddus -		6,000

Cadeirydd

gwelliannau

Datblygu Cymunedol	63,000	0
Cyfleusterau Cyhoeddus	12,000	900
	<u>248,258</u>	<u>11,562</u>

**Balans am y flwyddyn
(cyfnod)**

		48,940
d/y		309,286
c/y	<u>0</u>	<u>358,226</u>

Arian parod a buddsoddiadau		357,691
Dyledwyr		535
Credydwyr		<u>0</u>
		<u>358,226</u>

(iii) Adroddiad Archwilio Allanol Archwilydd Cyffredinol Cymru 2020/2021

Roedd y Clerc wedi'i hysbysu bod Cyngor Cymuned Llandybie wedi derbyn archwiliad diamod ar gyfer 2020/2021. Yn wreiddiol, roedd y dystysgrif archwilio wedi bod yn ddyledus erbyn diwedd Medi, 2021, ond roedd anawsterau yn Swyddfa Archwilio Cymru wedi oedi'r adroddiad. Nid oedd unrhyw faterion yn achosi pryder wedi'u dwyn at sylw'r Archwilydd Cyffredinol, ac nid oedd angen tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw fater pellach.

(iv) Adroddiad yr archwilydd mewnol 2021/22

Darllenodd y Clerc adroddiad a sylwadau yr Archwilydd Mewnol, a oedd yn datgan bod yr holl amcanion rheoli a brofwyd wedi bod yn foddhaol, a nid oedd angen tynnu sylw'r Cyngor at unrhyw faterion. Mae'n bosibl bod yn hyderus pan yn ystyried trefniadau llywodraethu a datganiad ariannol y Cyngor am y flwyddyn ariannol 2021/22. Roedd yr archwilydd wedi cwblhau yr adran berthnasol o'r Ffurflen Flynyddol i adlewyrchu ei ganfyddiadau.

Penderfynodd yr Aelodau gymeradwyo adroddiad yr archwilydd mewnol a thalu'r anfoneb am £650 a dderbyniwyd am y gwaith archwilio a wnaethpwyd.

(v) Argymhelliad Llywodraethiant Blynyddol 2021/2022

Roedd yr Aelodau wedi ymateb i'r Clerc ar ôl iddo ddarllen y cwestiynau Llywodraethiant Blynyddol o'r ffurflen archwilio.

Penderfynwyd bod y rhain yn cael eu cofnodi ar y Ffurflen Flynyddol fel y dywedwyd.

(vi) Argymhelliad adroddiad ariannol blynyddol 2021/2022

Penderfynwyd cadarnhau'r ffigyrau ariannol blynyddol ar y ffurflen a bod y Clerc a'r Cadeirydd yn llofnodi ac yn dyddio'r ffurflen yn y blychau priodol. Yna, bydd y ffurflen yn cael ei hanfon at yr archwilwyr allanol.

Mai 18^{fed}, 2022

(vii) Ail-benodi'r archwilydd mewnol

Penderfynwyd ail-benodi Mr Lyn Llewellyn yn archwilydd mewnol am y flwyddyn 2022/2023.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Clerc am ei adroddiad.

17.

Cyfethol Aelod yn ward Saron

Roedd lle gwag yn ward Saron oherwydd dim ond pump cynghorydd oedd wedi'u hethol ar gyfer y chwe sedd sydd ar gael.

Penderfynwyd cyhoeddi hysbyseb cyfethol ar wefan y Cyngor ac ar hysbysfyrddau'r cyngor, a bod angen i unrhyw ymgeisydd hysbysu'r Clerc o'i ddiddordeb erbyn Mehefin 20^{fed}, 2022. Bydd y Clerc yn adrodd yn ôl i'r Cyngor Llawn nesaf.

18.

Cais am wybodaeth oddiwrth Cyngorwyr Sir ynghylch cytundebau Adran 106

Nid dderbyniwyd unrhyw gais.

19.

Gwybodaeth ynghylch Seminarau / Cyfarfodydd ar y Cyd

Nid oedd unrhyw faterion i'w cofnodi.

Roedd y Clerc wedi cynnig trefnu noson sefydlu anffurfiol i gynghorwyr newydd cyn y cyfarfod nesaf.

20.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Penderfynodd yr Aelodau y dylid cynnal Cyfarfod Cyffredin nesaf y Cyngor ar **Fehefin 29^{ain}, 2022.**

21.

Roedd y Cynghorydd Mrs S. E. Thomas wedi llongyfarch Hefin Jones, ar ei ethol yn Gynghorydd Sir.

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach i'w drafod, daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben am 8.10 yh.

Cadeirydd